Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Cynllun cyhoeddi

## Diweddarwyd Tachwedd 2023

## Taflen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

I gael cyngor pellach, cysylltwch â'r: Grŵp Rheoli Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Diweddariad nesaf: Tachwedd 2025

**Rheoli fersiwn**

| **Fersiwn o'r ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau a wnaed** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Robert Gairey | 3 Chwefror 2017 | Cymerodd RG berchnogaeth o'r ddogfen a'i diweddaru ar sail newidiadau personél |
| 2.0 | Robert Gairey | Mai 2018 | Diweddariadau yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol |
| 3.0 | Robert Gairey | Gorffennaf 2021 | Diweddariadau fel rhan o adolygiad o bolisïau – newidiadau ar gyfer "tôn y llais", yn ogystal â diweddariadau i arfer gydag ymatebion i ymgynghoriadau cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth |
| 4.0 | Robert Gairey | Tachwedd 2023 | Diweddariadau yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol |

**Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad o resymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.

Yn unol ag Asesiad Estyn o Effaith ar Gydraddoldeb, cynhaliwyd asesiad cychwynnol o effaith sgrinio ac ystyrir nad yw'r polisi hwn yn cael effaith niweidiol ar sail y naw nodwedd warchodedig fel a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | 1 |
| 1 | Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 4 |
| 2 | Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario | 5 |
| 3 | Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gwneud | 6 |
| 4 | Sut rydym yn gwneud penderfyniadau | 6 |
| 5 | Polisïau a gweithdrefnau | 7 |
| 6 | Rhestrau a chofrestri | 8 |
| 7 | Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig | 9 |

## Cyflwyniad

Dyma'r cynllun cyhoeddi ar gyfer Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), a luniwyd dan Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac yn unol â chynllun cyhoeddi enghreifftiol cymeradwy Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Rydym wedi mabwysiadu'r cynllun cyhoeddi hwn yn ffurfiol er Rhagfyr 2008.

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) yn gyfraith ar 30 Tachwedd 2000 a'i bwriad yw meithrin diwylliant agored mewn llywodraeth. Roedd darpariaethau cynllun cyhoeddi'r Ddeddf mewn grym ar gyfer Estyn a chyrff cyhoeddus eraill o fis Tachwedd 2002 ymlaen. O dan y darpariaethau hyn, mae gennym ddyletswydd i amlinellu pa wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi a sut y bydd ar gael i chi. Daeth gweddill darpariaethau'r Ddeddf, sy'n ymwneud â'ch hawl i gael mynediad i wybodaeth, i rym ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus yn Ionawr 2005.

Nod y cynllun cyhoeddi hwn yw esbonio sut mae gwybodaeth amdanom ni a'n gwaith ar gael i'r cyhoedd, fel rheol. Dywed y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y dylai'r cynllun cyhoeddi nodi:

- pa wybodaeth rydym yn ymrwymo i'w chyhoeddi fel rhan o'r drefn
- sut rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth hon
- ph'un a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl

Rydym eisoes yn cyhoeddi cryn dipyn o wybodaeth i ymateb i ddeddfwriaeth, sy'n ymwneud â'n gweithgareddau arolygu a darparu cyngor. Rydym yn ymrwymo i gyhoeddi mwy o wybodaeth am ein gwaith.

Dyma'r saith dosbarth gwybodaeth y mae Estyn yn ymrwymo i'w cyhoeddi:

1 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

2 Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario

3 Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn dod yn ein blaen

4 Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

5 Ein polisïau a'n gweithdrefnau

6 Rhestrau a chofrestri

7 Gwasanaethau rydym yn eu cynnig

Ar 1 Ionawr 2005, daeth Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol newydd i rym hefyd, gan roi hawl i aelodau'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth amgylcheddol sy'n cael ei chadw gan awdurdodau lleol. Rydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r cyfryw wybodaeth yn ôl yr angen.

## Adolygu'r cynllun cyhoeddi

Rydym yn croesawu pob sylw am y cynllun hwn ac am ein cyhoeddiadau eraill. Bydd ein cynllun cyhoeddi'n cael ei adolygu'n rheolaidd yn dilyn adborth gan ein rhanddeiliaid a defnyddwyr ein gwefan a thrwy ymgynghori â nhw.

## Dod o hyd i gyhoeddiadau

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth rydym yn ymrwymo i'w chyhoeddi dan y cynllun hwn ar gael yn electronig a gallwch ei gweld yn uniongyrchol ar wefan Estyn yn: www.estyn.llyw.cymru

Mae ein gwefan wedi'i dylunio yn unol â deddfwriaeth ar hygyrchedd. Os hoffech gael copi o'r cynllun mewn fformat penodol (er enghraifft mewn print bras), cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod ac fe geisiwn fodloni eich gofynion.

I ddarllen dogfennau PDF, bydd angen Adobe Acrobat Reader arnoch; mae hwn ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan Adobe. Mae gwefan Estyn yn cynnwys dolen i wefan Adobe, neu efallai yr hoffech fynd ati'n uniongyrchol yn: www.adobe.com/products/acrobat/readstep.html

## Hawlfraint

Mae holl gyhoeddiadau Estyn, ar ba ffurf bynnag y cânt eu cyhoeddi, yn ddarostyngedig i hawlfraint y Goron sy'n cael ei gweinyddu gan Lyfrfa Ei Fawrhydi (HMSO), sy'n rhan o Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI).

Mae cyhoeddiadau a gynhyrchwn yn cynnwys y datganiad hawlfraint canlynol:

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae mwy o wybodaeth ac arweiniad am gyhoeddi a hawlfraint ar gael oddi wrth: Office of Public Sector Information, Information Policy Team, St. Clements House,

2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ Ffôn: 01603 723000.

## Eithriadau

Dyma'r wybodaeth sy'n cael ei heithrio o'r cynllun cyhoeddi hwn fel y ganlyn:

- gwybodaeth sy'n cael ei hatal rhag cael ei datgelu gan y gyfraith, e.e. yn amodol ar eithriadau i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- gwybodaeth mewn fformat drafft
- gwybodaeth sydd wedi'i harchifo, gwybodaeth sydd wedi dyddio neu wybodaeth sydd fel arall yn anhygyrch
- gwybodaeth a fyddai'n anymarferol neu'n mynnu llawer o adnoddau i baratoi'r deunydd ar gyfer ei rhyddhau fel rheol
- gwybodaeth nad yw'n cael ei chadw mwyach

Gallwch wneud cais am wybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi o dan y cynllun hwn. Byddwn yn ystyried eich cais yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Rhagor o wybodaeth am gynllun cyhoeddi Estyn a sut i gysylltu â ni

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynllun cyhoeddi a sut rydym yn ymateb i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gael gan y **Swyddog Gwybodaeth** yn y cyfeiriad canlynol

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Ffôn: 029 2044 6446

E-bost: ymholiadau@estyn.llyw.cymru

## 1 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992.

Rydym yn annibynnol ar Senedd Cymru ond yn cael ein cyllid gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae ein gwaith yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol o ansawdd uchel sy'n arbennig i Gymru ac yn bodloni ei hanghenion. Mae ein safbwynt Cymru-gyfan unigryw yn cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu polisi ar gyfer addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

Rydym yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y sectorau canlynol:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau)
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu oedolion yn y gymuned
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd yn cynnig cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac yn cyhoeddi'r cyngor hwn yn ein hadroddiadau thematig sy'n cael eu comisiynu gan y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

Rydym hefyd yn hyrwyddo lledaenu arfer effeithiol mewn addysg a hyfforddiant.

### Strwythur sefydliadol

Mae staff Estyn yn aelodau o Wasanaeth Sifil y DU. Gellir cael gwybodaeth am ein strwythur, a throsolwg strategol, ar ein gwefan yma.

## 2 Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario

### Gwybodaeth ariannol

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon sy'n cynnwys:

- costau gweithredu: cofnod o weithgareddau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd
- cyfrifon adnoddau blynyddol sy'n manylu ar asedau a rhwymedigaethau, gan gynnwys datganiad o ganlyniadau ariannol blynyddol
- manylion am daliadau Aelodau'r Bwrdd
- ein datganiad blynyddol ar Lywodraethu
- ein hadroddiad cryno ar gynaliadwyedd
- gwybodaeth am ein cyfraniadau at weithgorau
- gwybodaeth am aelodau Bwrdd / Pwyllgor Estyn a phresenoldeb mewn cyfarfodydd

Mae rhagor o wybodaeth ar gael dan y tab "Cyhoeddiadau a Chyfrifon Corfforaethol" ar ein gwefan.

Cyhoeddir yn flynyddol hefyd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn.

### Gweithdrefnau caffael

Rydym wedi sefydlu dull cyson ac unffurf i'n gweithgareddau caffael. Mae ein gweithdrefnau yn cyd-fynd â gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Rhestrau o gontractau a ddyfernir a'u gwerth**

Rydym yn cynnal cofrestr o'r contractau a ddyfernir a byddwn yn ystyried trefnu bod y rhain ar gael trwy gais rhyddid gwybodaeth. Gellir gweld gwerth cyffredinol y contractau yn ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein telerau ac amodau contract ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, ac arweiniad ar y broses ar gyfer cyflwyno ac arfarnu tendrau ar gyfer ein harolygiadau, i'w gweld dan y tab "Polisïau ac arweiniad" ar ein gwefan.

## 3 Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gwneud

Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru.

### Gwneud i bethau ddigwydd

Ein cenhadaeth yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant dysgu a hunanwella trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu.

Rydym yn llunio Cynllun Blynyddol, sydd ar gael ar ein gwefan.

## 4 Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

### Ymgynghoriadau cyhoeddus a gwybodaeth gefndir

Rydym yn cyhoeddi papurau ymgynghori ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'n harolygiadau a chrynodebau o ymatebion i'r rhain.  Mae ein hymatebion i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a phwyllgorau eraill yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

**Cyfathrebu mewnol**

Rydym yn cyfathrebu â'n staff trwy ein sianeli mewnol sydd wedi'u hen sefydlu, gyda chefnogaeth rheolwyr a staff ar bob lefel.  Caiff cyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth a'r Grŵp uwch reolwyr eu cadeirio gan PAEF.

Mae ein Fframwaith Llywodraethu ar ein gwefan.

Mae'r byrddau hyn yn cyfleu eu penderfyniadau i staff a rhanddeiliaid ac yn ysgogi unrhyw waith dilynol, gan gynnwys gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â chamau gweithredu a chytuno ar amserlenni ar gyfer cwblhau.

### Cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd lefel uwch

Mae crynodeb o'r agenda a chofnodion o'r cyfarfodydd canlynol ar gael ar gais

- agenda a chofnodion y Bwrdd Strategaeth
- agenda a chofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- agenda a chofnodion y Grŵp uwch reolwyr

# 5 Polisïau a gweithdrefnau

Ein nod yw cyhoeddi pob protocol cyfredol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

## Cynnal busnes

Mae gennym femoranda cyd-ddealltwriaeth ar waith gydag asiantaethau eraill a rhanddeiliaid, a byddwn yn ystyried trefnu bod y rhain ar gael trwy gais rhyddid gwybodaeth.

## Darparu gwasanaethau

Mae gennym ystod o bolisïau ac arweiniad i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gyflawni'n unol ag arfer orau, o fewn deddfwriaeth berthnasol ac yn unol â rheolau'r Gwasanaeth Sifil.

## Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn cyhoeddi Polisi Iaith Gymraeg sy'n mynd i'r afael â'n hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal:

## Recriwtio a chyflogi staff a'r rhai sy'n gweithio gydag Estyn

Gwneir penodiadau'r Gwasanaeth Sifil yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, www.civilservice.gov.uk, sy'n mynnu y caiff penodiadau eu gwneud yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Rydym yn:

- cyhoeddi pob swydd wag a'u graddfeydd cyflog ar ein gwefan.
- Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddi a swyddi gwag cyfredol ar gyfer: arolygwyr annibynnol ysgolion a darpariaeth y blynyddoedd cynnar; enwebeion; arolygwyr cymheiriaid; arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr lleyg mewn sectorau addysg a hyfforddiant perthnasol

Hefyd, rydym yn cyhoeddi polisïau a gweithdrefnau sydd i'w defnyddio'n fewnol ac sy'n rhoi arweiniad i staff.

## Gwasanaeth cwsmeriaid

Rydym yn cyhoeddi arweiniad ar beth i'w wneud os hoffech roi adborth neu gwyno am ein gwaith.

## Rheoli cofnodion a pholisïau data personol

Rydym yn cyhoeddi ein Polisi Cadw Cofnodion a'i amserlen sy'n rhoi arweiniad ar ba mor hir y caiff gwybodaeth ei chadw.

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am sut rydym yn gweinyddu Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn ein Polisi Mynediad at Wybodaeth.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae ein gweithdrefnau ar gyfer delio â cheisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r cymorth a'r cyngor y gallwn ei roi i chi wrth wneud ceisiadau ar gael yn ein Polisi Mynediad at Wybodaeth.

Ein nod yw:

- ystyried y wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau i ymateb i geisiadau am wybodaeth gyda'r bwriad o drefnu ei bod ar gael yn gyhoeddus
- cyhoeddi penderfyniadau yn ymwneud ag Estyn a wnaed gan y Comisiynydd Gwybodaeth, mewn perthynas â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, lle mae'r penderfyniad yn effeithio ar nifer sylweddol o unigolion

Ar ein gwefan, rydym yn cyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau o ganlyniad i gais a wneir yn gysylltiedig â Rhyddid Gwybodaeth, ynghyd â chopi o'n hymateb.

### Codi tâl

Mae cyhoeddiadau ar ein gwefan ar gael yn rhad ac am ddim.

Ni chodir tâl am geisiadau a wneir dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Fodd bynnag, gellir codi tâl am geisiadau a wneir dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am wneud cais am wybodaeth.

## 6 Rhestrau a chofrestri

### Amserlen arolygu

Ar ôl hysbysu darparwyr, rydym yn cyhoeddi rhestr o'r arolygiadau sydd ar ddod ar ein gwefan.

### Cofrestri asedau

Rydym yn cyhoeddi cofnod o werthoedd asedau sefydlog ac asedau cyfredol yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

### Cofrestr o fuddiannau a rhoddion

Rydym yn cynnal cofrestr buddiannau a rhoddion ar gyfer aelodau'r bwrdd, yr holl aelodau staff sy'n cael eu cyflogi'n barhaol, secondeion a staff dros dro, a bydd yn ystyried trefnu bod y rhain ar gael trwy gais rhyddid gwybodaeth. Nid ydym yn derbyn unrhyw roddion a gynigir gan gyflenwyr.

## 7 Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig

O dan delerau Deddf Addysg 2005, mae'n ofynnol i ni lunio Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi i roi trosolwg llawn o'r safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer darparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o'n holl waith arolygu.

### Fframweithiau, arweiniad ac amserlenni arolygu

Rydym yn cyhoeddi:

- ein fframwaith ar gyfer arolygu (sy'n manylu ar ddibenion ac egwyddorion arolygu, sut bydd arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd, a beth fydd allbynnau arolygiadau)
- ein harweiniad arolygu ar gyfer pob sector addysg a hyfforddiant, gan gynnwys esboniadau o sut rydym yn cynnal arolygiadau
- amserlenni ar gyfer arolygiadau ym mhob sector, sy'n dangos pryd y caiff arolygiadau eu cynnal (ar ôl rhoi gwybod i'r sefydliadau sy'n cael eu harolygu)
- arweiniad ychwanegol a/neu atodol ar gyfer arolygwyr cofrestredig ysgolion, yn ôl yr angen
- ein harweiniad ar gyfer ysgrifennu adroddiadau yn Arweiniad Ysgrifennu Estyn

### Newyddion

Rydym yn cyhoeddi e-gylchlythyr misol i randdeiliaid ac yn rhannu newyddion ar ein gwefan. Mae ein tudalen 'cofrestrwch i gael diweddariadau' ar y we yn caniatáu i randdeiliaid gofrestru i gael y diweddaraf am ein meysydd gwaith sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

### Adolygiadau thematig ac arfer effeithiol

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau sy'n cynnwys manylion am ein hadolygiadau thematig ac astudiaethau achos o arfer effeithiol.

### Adroddiadau arolygiadau

Rydym yn parhau i gyhoeddi adroddiadau arolygu mudiadau a sefydliadau a gynhelir i ymateb i ddeddfwriaeth neu ar gais PAEF.

Rydym yn cyhoeddi pob adroddiad ar gyfer arolygiadau craidd (cychwynnol), yn ogystal ag ar gyfer ymweliadau monitro blynyddol a gynhaliwyd ag ysgolion arbennig a gynhelir. Rydym yn cyhoeddi adroddiadau monitro (dilynol) ar gyfer y darparwyr hynny sy'n mynd i mewn, neu'n dod allan, o'r categorïau dilynol mesurau arbennig neu welliant sylweddol. Rydym yn ystyried pob cais am wybodaeth sy'n gysylltiedig ag adroddiadau arolygu.

Dylid gofyn yn uniongyrchol i'r mudiad neu'r sefydliad am gopïau papur o adroddiadau. Dan amgylchiadau penodol, gall y sefydliad godi tâl bychan am hyn. Dylech ofyn i bennaeth y sefydliad am fanylion unrhyw daliadau y gall fod angen i chi eu talu wrth ofyn am gopi papur o adroddiad. Nid yw Estyn yn dosbarthu copïau papur o adroddiadau arolygu, fel rheol.

## Ymatebion Rhyddid Gwybodaeth

Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan yr holl wybodaeth a ryddhawyd o ganlyniad i gais yn ymwneud â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ynghyd â chopi o'n hymateb.